# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 168 (v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diwygio Bysiau - i'w gyflwyno fel Datganiad Ysgrifenedig

(0 munud)

### 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia - Gohiriwyd

(0 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Cymorth i Aros

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Adroddiad Blynyddol 2022-23

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Parthau Buddsoddi

(30 munud)

## 8 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Cydnabod y cyfraniad y mae digwyddiadau yn ei wneud i Gymru - Gohiriwyd

(0 munud)

## 9 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Tata Steel

(30 munud)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

**NNDM8394** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8393 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Tachwedd 2023.

## 10 Dadl: Coffa

(60 munud)

**NNDM8393** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd parhaus cyfnod y Cofio i deuluoedd a chymunedau yng Nghymru.

2. Yn talu teyrnged i wasanaeth ac aberth unigolion o bob rhan o Gymru sydd yn gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn ein lluoedd arfog.

3. Yn cydnabod gwaith diflino sefydliadau, unigolion a gwirfoddolwyr sy'n cefnogi cymuned a chyn-aelodau'r lluoedd arfog ledled Cymru.

**Cyd-gyflwynwyr**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Heledd Fychan (Canol De Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r angen i ymdrechu am ddatrysiadau heddychlon i bob gwrthdaro ac am ddiwedd ar ryfel.

Yn cofio pawb sydd wedi colli eu bywydau mewn rhyfeloedd a gwrthdaro, gan gynnwys cwympiedigion sifil.

## 11 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 8 Tachwedd 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 02/11/2023 i'w hateb ar 07/11/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Hefin David** *Caerffili*

1 OQ60191 **(e)**

Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i adfer tomenni glo yn ddiogel yng Nghaerffili?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ60194 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith i liniaru llifogydd lleol yng nghanolbarth Cymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

3 OQ60184 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bawb yng Nghanol De Cymru fynediad at feddyg teulu mor agos i'w cymuned â phosibl?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ60206 **(e)**

Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yng Ngorllewin De Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

5 OQ60190 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwneud tirfeddianwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal a chadw ceuffosydd a ffosydd yn briodol ar gyfer atal llifogydd?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OQ60182 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o uwchraddio adrannau 5 a 6 yr A465 Blaenau'r Cymoedd?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ60209 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at driniaeth i gleifion yng ngogledd Cymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

8 OQ60202 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i fusnesau lleol i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ60210 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fanteisio ar botensial economaidd a chymdeithasol ardaloedd arfordirol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

10 OQ60187 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog newydd-ddyfodiaid ifanc i'r diwydiant amaethyddol?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

11 OQ60212 **(w)**

Pa gamau pellach sydd wedi'u cymryd gan y Llywodraeth o ran adeiladu ffordd osgoi Llandeilo ers datganiad ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf eleni?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

12 OQ60179 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i fusnesau yn Nwyrain De Cymru?